OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 287 (Cy.39)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*12 Chwefror 2003*
Yn dod i rym - -	*18 Chwefror 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(7) ac (8) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**3**), ac ar ôl ymgynghori gyda'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**4**)), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 18 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

Darpariaethau dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "penderfyniad perthnasol" ("*relevant decision*") yw unrhyw benderfyniad a wnaed ar ôl 31 Awst 1994 gan yr athro neu athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion i wahardd disgybl yn barhaol (sy'n cynnwys penderfyniad y dylid gwneud unrhyw waharddiad o ddisgybl

(**1**) 1996 p.56. Ar gyfer ystyr "regulations" *gweler* adran 579.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) ar gyfer ystyr "regulations".
(**4**) 1992 p.53; amnewidir paragraff 15(b) o Atodlen 1 yn rhagolygol gan baragraff 22 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.
(**5**) 1998 p.31.

a wneir am gyfnod penodedig yn barhaol), yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 neu baragraff 7 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 1993(**6**);

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw—

(a) mewn perthynas â disgybl o dan 18, ei riant;

(b) mewn perthynas â disgybl sydd wedi cyrraedd yr oedran hwnnw, y disgybl ei hun.

Apelio yn erbyn gwaharddiad parhaol o uned cyfeirio disgyblion

3.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi at ddibenion adran 52(7) o Ddeddf 2002 y person all apelio i banel apelau yn erbyn penderfynad i wahardd disgybl yn barhaol o uned cyfeirio disgyblion.

(2) Y person a ragnodir yw'r person perthnasol mewn perthynas ag unrhyw ddisgybl sy'n destun penderfyniad perthnasol.

Camau i'w cymryd gan yr athro neu athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo athro neu athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd unrhyw ddisgybl yn barhaol ar y diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw, rhaid i'r athro neu athrawes yng ngofal ddilyn y camau canlynol ar unwaith—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person perthnasol yn cyfeirio at y penderfyniad hwnnw ac sy'n datgan y materion canlynol—

(i) y rhesymau am y penderfyniad,

(ii) ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad,

(iii) y person y dylai roi unrhyw hysbysiad apêl iddo,

(iv) bod raid i unrhyw hysbysiad apêl gynnwys seiliau'r apêl, a

(v) y diwrnod olaf y gellir gwneud yr apêl.

(b) hysbysu'r awdurdod addysg lleol bod y digybl yn cael ei wahardd yn barhaol a'r rhesymau dros hynny.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn i fod yn gymwys i unrhyw benderfyniad perthnasol a wnaed cyn y diwrnod pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

Trefniadau ar gyfer apelau yn erbyn gwahardd disgyblion yn barhaol

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau yn unol â'r Rheoliadau hyn i alluogi person perthnasol i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad perthnasol.

(2) Ni ellir gwneud unrhyw apêl mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad perthnasol y mae rheoliad 4(2) yn gymwys iddo oni roddir hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r seiliau am yr apêl gan y person perthnasol i'r awdurodd addysg lleol cyn pen 30 diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod pan ddaw'r rheoliadau hyn i rym.

Cymhwyso deddfwriaeth bresennol

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Atodlen 18 i Ddeddf 1998 i fod yn gymwys gyda'r addasiadau a ragnodwyd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn mewn perthynas ag unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad perthnasol yn unol â threfniadau a wnaed o dan reoliad 5.

(**6**) 1993 p.35.